Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Gymunedol Stepaside**
**Heol Caerfyrddin**
**Cilgeti**
**Sir Benfro**
**SA68 0UG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓒ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/06/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Stepaside ym mhentref Cilgeti yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae'n gwasanaethu'r pentref lleol a'r cylch.

Mae 148 o ddisgyblion 3 i 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 14 o blant meithrin. Mae saith o ddosbarthiadau, ac un ohonynt yn ddosbarth oed cymysg.

Mae bron yr holl ddisgyblion o dras gwyn Prydeinig ac maent yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Mae rhyw 24% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 28% o ddisgyblion, ac mae hyn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw rhyw 19% o ddisgyblion o'r gymuned teithwyr.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd yn Ionawr 2015. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mawrth 2012.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2015-2016 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Stepaside yw £4,033. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £6,208 a'r isafswm yw £3,454. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Stepaside yn y 34ain safle o'r 61 o ysgolion cynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol
- rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n effeithiol mewn dosbarthiadau ac ar ei gilydd
- mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn addas ar draws y cwricwlwm
- llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd dysgu eraill
- rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'u targedau unigol
- bron yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda
- ystod eang iawn o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm

Fodd bynnag:

- ar draws yr ysgol, nid oes digon o ddisgyblion yn darllen yn ddigon da
- mae ansawdd sillafu disgyblion yn amrywiol ar draws yr ysgol ac nid yw mwyafrif y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus
- yng nghyfnod allweddol 2, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn cynhyrchu ystod o ysgrifennu estynedig ac annibynnol
- nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigonol yn ystod y diwrnod
- mae ansawdd yr addysgu yn amrywio gormod ar draws yr ysgol
- nid yw athrawon yn darparu adborth yn gyson i ddisgyblion sy'n dangos iddynt sut i gymryd y camau nesaf er mwyn gwella eu gwaith

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn cyfleu gweledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n gadarn ar wella'r ysgol
- y pennaeth yn arwain yn dda iawn drwy esiampl ac mae wedi cyflwyno llawer o strategaethau effeithiol newydd
- aelodau'r uwch dîm rheoli yn cynorthwyo'r pennaeth yn effeithiol ac yn cyfrannu at ethos tîm cadarn
- arweinwyr yn mynd i'r afael â thanberfformiad yn dda ac yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am berfformiad disgyblion yn fwyfwy hyderus
- yr ysgol wedi datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu cynhwysfawr, sy'n canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau
- llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn datblygu mwy o

ymwybyddiaeth o gryfderau'r ysgol a blaenoriaethau ar gyfer gwella
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid i wella ei darpariaeth

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg ar draws yr ysgol

A2 Codi safonau mewn Cymraeg ar draws yr ysgol

A3 Gwella ansawdd yr addysgu fel ei fod yn herio disgyblion o bob gallu yn gyson

A4 Cryfhau gweithdrefnau asesu ac asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol

A5 Gwella presenoldeb disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a medrau mathemategol sydd islaw, ac yn aml ymhell islaw, hynny a ddisgwylir gan ddisgyblion o oed tebyg. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd priodol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n effeithiol mewn dosbarthiadau ac ar ei gilydd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn glir ac yn gofyn cwestiynau perthnasol i'w hathrawon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau siarad yn dda ac yn mwynhau siarad ag oedolion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau syml yn foddhaol ac yn defnyddio'u medrau ffonig yn addas i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn dechrau defnyddio mynegiant wrth ddarllen i oedolion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn darllen deunyddiau'n briodol, ond yn aml nid ydynt yn darllen gyda digon o fynegiant. Ar draws yr ysgol, nid oes digon o ddisgyblion yn darllen testunau heriol yn ddigon da neu gyda dealltwriaeth ddigon llawn. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ymchwilio llyfrau ffeithiol yn llwyddiannus i gasglu gwybodaeth ar gyfer testunau penodol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau darllen lefel uwch yn effeithiol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu cynnar yn briodol. Maent yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig byr o ansawdd addas, ac erbyn Blwyddyn 2 mae disgyblion yn dechrau defnyddio atalnodau llawn a phriflythrennau yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, mae cywirdeb sillafu disgyblion yn amrywiol ar draws yr ysgol, ac nid yw mwyafrif y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn addas mewn pynciau eraill.

Mae safonau mewn Cymraeg yn gwella. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau llefaredd Cymraeg yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn deall ymadroddion a brawddegau syml, ond nid ydynt bob amser yn ddigon hyderus i ymateb i bobl eraill, ac maent yn defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa. Nid yw llawer yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigonol yn ystod y diwrnod. Mae medrau llawer o ddisgyblion mewn darllen ac ysgrifennu yn datblygu'n briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datrys problemau arian syml. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymharu a threfnu rhifau'n gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn parhau i wneud cynnydd cyson yng nghyfnod allweddol 2. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni prosesau lluosi a

rhannu hir yn llwyddiannus.  Maent yn cyfrifo perimedr ac arwynebedd yn gywir.  Fodd bynnag, mae eu gallu i ateb cwestiynau rhif yn gyflym a defnyddio strategaethau gwahanol i ddod i atebion cywir yn gyfyngedig.  Nid ydynt bob amser yn cyflwyno'u gwaith yn daclus, ac megis dechrau cael eu datblygu y mae eu medrau datrys problemau.  Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn addas mewn meysydd dysgu eraill.

Dros y tair blynedd diwethaf, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion o ran y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, ac nid oes unrhyw batrwm cyson.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, o ran y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a mathemateg, mae perfformiad disgyblion yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.  Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch yn fwy amrywiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'u targedau unigol.  Fodd bynnag, nid yw medrau annibynnol disgyblion yn datblygu'n ddigon da.

Mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion o ran y lefel ddisgwyliedig ar hyn o bryd, ond nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni'u potensial bob amser.

**Lles:  Digonol**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r ysgol.  Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn gallu troi at unrhyw un i gael cymorth os bydd angen.  Mae agweddau cadarnhaol gan bron yr holl ddisgyblion at fyw, bwyta ac yfed yn iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, wrth iddynt symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amser chwarae.  Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol.  Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau uchel o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith.  Fodd bynnag, mae gallu disgyblion i wella eu dysgu eu hunain yn gyfyngedig.

Mae disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn mwynhau ymgymryd â chyfrifoldebau, er enghraifft fel cyfeillion yr iard chwarae a swyddogion iau diogelwch ar y ffyrdd.  Mae cyngor yr ysgol yn weithgar yn yr ysgol ac yn trefnu gweithgareddau i godi arian i'r rhai mewn angen.  O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu synnwyr da o gyfrifoldeb cymdeithasol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda, ac yn cymryd rhan mewn ystod o ddigwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol cymunedol.  Er enghraifft, maent yn ymweld â chartrefi preswyl ac yn cyfrannu at ffeiriau lleol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi gosod yr ysgol islaw'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n agored i niwed wedi gwella gryn dipyn yn ddiweddar. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi adolygu ac addasu'u cynlluniau tymor hir i ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn effeithiol. Maent wedi mabwysiadu dull newydd yn seiliedig ar destunau a medrau, ac mae hyn yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Ceir rhaglenni ymyrraeth priodol ar gyfer disgyblion targedig i gynorthwyo â datblygu eu medrau sylfaenol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith lawn y gwaith hwn ar wella safonau disgyblion.

Mae ystod eang iawn o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys profiadau preswyl, ymwelwyr, ymweliadau pwrpasol â chanolfannau amrywiol a chynyrchiadau theatr ysgolion, fel Twelfth Night o waith Shakespeare, yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn helpu i wella medrau llythrennedd disgyblion.

Cynigir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae staff yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru drwy amrywiaeth o ymweliadau â mannau o ddiddordeb, fel canolfan yr Urdd yn Llangrannog. Caiff disgyblion gyfleoedd da hefyd i gyfranogi mewn ystod o weithgareddau diwylliannol yn gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Caiff disgyblion eu hannog yn weithgar i arbed dŵr ac ynni, i ailgylchu ac i fyw'n gynaliadwy. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion gael dealltwriaeth o wledydd a diwylliannau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn codi arian i gynorthwyo plant llai ffodus mewn gwledydd eraill, ac maent yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau i hyrwyddo masnach deg.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar ym mhob dosbarth. Mae llawer o wersi yn cynnwys amcanion dysgu clir ac mae athrawon yn annog disgyblion i greu eu meini prawf llwyddo eu hunain. Mae'r mwyafrif o athrawon yn holi disgyblion yn fedrus ac yn paratoi amrywiaeth o weithgareddau ysgogol i gynnwys pob disgybl. Mae cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n dda â staff a disgyblion wrth gyflwyno gwersi ac mewn grwpiau ymyrraeth.

Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu'n amrywio gormod ar draws yr ysgol. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid oes disgwyliadau digon uchel gan athrawon o'r hyn y

gall disgyblion ei gyflawni, ac nid yw'r tasgau sydd wedi'u cynllunio yn bodloni anghenion pob disgybl yn gyson, yn enwedig y rhai mwy abl. Nid yw rhediad y dysgu yn ddigon sionc ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol a bod yn gyfrifol am agweddau ar eu dysgu eu hunain.

Mae gweithdrefnau i olrhain cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol. Mae athrawon yn darparu adborth priodol i ddisgyblion ynglŷn â beth maent wedi'i wneud yn dda, ond nid ydynt bob amser yn nodi'r camau nesaf sydd angen i ddisgyblion eu cymryd er mwyn gwella eu gwaith. Nid oes dull cyson gan athrawon o osod targedau. Mae asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n araf ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol. Maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gyflawniadau disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gefnogol a gofalgar iawn. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hymddygiad. Mae rhaglen gynhwysfawr o addysg bersonol a chymdeithasol ac ystod bwrpasol o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo byw'n iach yn effeithiol, gan gynnwys pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff yn yr ysgol ac yn yr amrywiaeth eang o glybiau chwaraeon allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar hyrwyddo presenoldeb da. Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ymgysylltu â'r gymuned teithwyr a sicrhau bod plant teithwyr yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae cysylltiadau buddiol gydag ystod o asiantaethau arbenigol a gwasanaethau cymorth yn sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth proffesiynol pan fydd angen. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau effeithiol gyda gwasanaethau lleferydd ac iaith a nyrs yr ysgol.

Ceir gweithdrefnau effeithiol i nodi anghenion ychwanegol disgyblion ac i olrhain a monitro'r cynnydd maent yn ei wneud. Mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir ac yn amlinellu gweithgareddau penodol. Caiff disgyblion a rhieni eu cynnwys yn llawn yn y broses o'u cynhyrchu a'u hadolygu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae oedolion a disgyblion yn trin ei gilydd â gofal a pharch. Mae'r pwyslais cryf iawn ar gynhwysiant yn sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cael eu trin yn gyfartal a bod ganddynt hawl gyfartal i bob agwedd ar y ddarpariaeth. Ceir pwyslais da ar adnabod, dathlu a pharchu amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn hygyrch iawn. Mae'r amgylchedd awyr agored helaeth yn ysgogol ac yn helpu disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau, fel garddio. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn arbennig yn elwa ar ardal ddysgu awyr agored helaeth i ehangu'u medrau ieithyddol, rhifedd a'u medrau creadigol. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn.

Mae ystod eang o adnoddau ar gael i staff a disgyblion ac maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae arddangosiadau deniadol mewn ystafelloedd dosbarth ac yn y coridorau yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Ers ei benodiad cymharol ddiweddar, mae'r pennaeth wedi cyfleu gweledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n gadarn ar wella'r ysgol. Mae wedi rhannu ei werthoedd a'i ddisgwyliadau uchel yn llwyddiannus gyda staff, rhieni a'r corff llywodraethol, ac mae wedi sefydlu blaenoriaethau pwysig ar gyfer datblygu'r ysgol.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn ac mae ei bresenoldeb yn weladwy o amgylch yr ysgol. Mae wedi cyflwyno llawer o strategaethau effeithiol, er enghraifft, i wella presenoldeb a chodi disgwyliadau. Mae aelodau eraill yr uwch dîm rheoli yn cynorthwyo'r pennaeth yn dda ac yn cyfrannu at ethos tîm cryf.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â thanberfformiad ac yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad disgyblion gyda mwyfwy o hyder. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd a chyfarfodydd rheolaidd yr uwch dîm arwain yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldebau clir a swydd-ddisgrifiadau diweddar, ac maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n dda.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni'u dyletswyddau statudol yn gymwys. O dan arweiniad pwrpasol y pennaeth, maent yn datblygu mwy o ymwybyddiaeth o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae llywodraethwyr yn ymwneud mwy â llunio cynllun datblygu'r ysgol ac mae eu rôl fel ffrindiau beirniadol yn datblygu'n dda. Maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau gyda hyder cynyddol, ac yn ymwneud mwyfwy â bywyd yr ysgol o ddydd i ddydd, er enghraifft drwy arsylwi gwersi a gwrando ar ddysgwyr.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda, er enghraifft trwy wella'r ddarpariaeth awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, a chau'r bwlch ar gyfer disgyblion difreintiedig.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu helaeth a chynhwysfawr, sy'n canolbwyntio'n fanwl ar godi safonau. Mae wedi diwygio gweithdrefnau monitro'n effeithiol i gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau disgyblion a defnydd trylwyr o ddata. Caiff yr holl staff eu cynnwys yn y broses, ac mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i farnau llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae'r cylch monitro mwyaf diweddar yn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn gywir. Fodd bynnag, nid yw camau i wella'r rhain wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar ddarpariaeth yr ysgol.

Mae'r adroddiad hunanasesu yn rhoi darlun cywir o'r ysgol. Mae'n arfarnol yn bennaf, ac yn rhoi barnau cadarn iawn am safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol.

Ceir cysylltiadau cryf rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys union feysydd i'w gwella, ac mae'n nodi costau, graddfeydd amser a chyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r meini prawf llwyddo yn fesuradwy ac yn cysylltu'n dda â gwelliannau yn neilliannau disgyblion. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gwirio cynnydd yn erbyn y cynllun datblygu yn rheolaidd er mwyn arfarnu llwyddiant mentrau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid i wella'i darpariaeth. Ceir perthnasoedd da iawn gyda rhieni; maent yn teimlo bod croeso mawr iddynt yn yr ysgol ac maent yn gwybod bod eu barnau a'u safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae trefniadau effeithiol ar waith gyda'r cylch chwarae, sy'n sicrhau cymorth da ar gyfer disgyblion newydd. Mae cysylltiadau buddiol â'r ysgolion uwchradd yn sicrhau bod disgyblion yn symud yn hwylus i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Gweithia'r ysgol yn dda gydag ysgolion cynradd lleol i sicrhau cysondeb wrth safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Ceir partneriaethau llwyddiannus gyda grwpiau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a lles eraill. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau agos gydag asiantaethau eraill sy'n cefnogi teuluoedd y disgyblion hynny sydd dan anfantais neu y gall fod anghenion ychwanegol ganddynt. Mae'r partneriaethau hyn yn helpu i gyfoethogi dysgu a lles disgyblion.

Mae cysylltiadau cadarn â'r gymuned yn darparu profiadau buddiol i ddisgyblion. Caiff cyflawniadau disgyblion eu dathlu'n rheolaidd yn y wasg leol, a bydd trigolion lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynorthwyo gyda gweithgareddau celf a chrefft. Mae cysylltiadau buddiol â busnesau lleol yn gwella darpariaeth yr ysgol ymhellach ac yn dylanwadu'n dda ar les disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae nifer addas o staff cymwys gan yr ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm i ddarparu amgylchedd dysgu gofalgar ac ysgogol i ddisgyblion. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu a lles disgyblion.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae gweithdrefnau gwell o ran rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn bodloni gofynion statudol. Mae targedau yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae athrawon yn gweithio'n dda mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol i wella dysgu yn yr awyr agored yn Cyfnod Sylfaen a chodi safonau mewn Cymraeg.

Gwneir defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion gan yr ysgol. Mae systemau wedi'u gwella ar gyfer monitro'n effeithiol effaith cyllid a rhaglenni ymyrraeth ar ddisgyblion difreintiedig sydd wedi'u targedu.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y corff llywodraethol, yn monitro cyllideb yr ysgol yn dda ac yn sicrhau bod adnoddau'n cyfateb yn fanwl i'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

O ystyried safonau disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6682260 - Ysgol Gynradd Gymunedol Stepaside**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 161 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.9 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 19 | 21 | 13 | 24 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 78.9 | 81.0 | 76.9 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 2 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 21 | 13 | 24 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 78.9 | 90.5 | 76.9 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.1 | 42.9 | 15.4 | 29.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 3 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 21 | 13 | 24 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 85.7 | 84.6 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.3 | 28.6 | 7.7 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 2 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 21 | 13 | 24 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.8 | 85.7 | 61.5 | 45.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6682260 - Ysgol Gynradd Gymunedol Stepaside**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 161 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.9 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 14 | 12 | 30 | 26 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 91.7 | 90.0 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 12 | 30 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 91.7 | 90.0 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 35.7 | 50.0 | 43.3 | 30.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 12 | 30 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 91.7 | 93.3 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 56.7 | 42.3 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 12 | 30 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 91.7 | 93.3 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 53.3 | 34.6 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Further information is available from the Welsh Government My Local School website at the link below.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 68 | 68<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 68 | 68<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 68 | 68<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 68 | 68<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 68 | 68<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 68 | 68<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 68 | 68<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 68 | 68<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 68 | 68<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 68 | 68<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 68 | 68<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 68 | 68<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 47 | 35 | 12 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 47 | 40 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 47 | 35 | 12 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 47 | 36 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 47 | 31 | 15 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 66% | 32% | 2% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 46 | 33 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 45 | 32 | 13 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 46 | 28 | 15 | 2 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 61% | 33% | 4% | 2% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 45 | 33 | 10 | 2 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 22% | 4% | 0% | | |
| | | 60% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 47 | 34 | 13 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 47 | 38 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 81% | 17% | 2% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 47 | 30 | 16 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 34% | 2% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 47 | 26 | 16 | 5 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 55% | 34% | 11% | 0% | | |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 47 | 32 | 13 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 68% | 28% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 46 | 27 | 14 | 5 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 59% | 30% | 11% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 45 | 29 | 16 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 41 | 18 | 22 | 1 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 44% | 54% | 2% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 47 | 37 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 46 | 28 | 17 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Aileen Patricia Brindley | Arolygydd Tîm |
| Mr Matthew Evans | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Buddug Mai Bates | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Paul Harries (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.